## Atodiad B - Ymateb y Bwrdd i argymhellion yr adolygiad

### Crynodeb o'r cynnydd ar argymhellion adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol

Ym mis Mawrth 2023, cafodd y Bwrdd adolygiad o'i effeithiolrwydd. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu Comisiwn y Senedd. Roedd 12 o argymhellion yn ymwneud â'r berthynas rhwng y Bwrdd, y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd; cynyddu tryloywder a darparu adnoddau effeithiol ar gyfer gwaith y Bwrdd.

Mewn ymateb, cytunodd y Bwrdd ar gynllun gweithredu, a rhoddwyd y cynllun ar waith o fis Mai 2023.

Mae'r argymhellion wedi arwain at fwy o weithio ar y cyd â'r Comisiwn, mwy o dryloywder ac ymgysylltu ag Aelodau o'r Senedd, a chydweithio mwy hwylus.

| Argymhelliad 1 Dylai'r Bwrdd, ar y cyd â thîm yr ysgrifenyddiaeth, gyflwyno Siarter ar gyfer y Bwrdd neu ddogfen lywodraethu arall o'r fath. | |
|---|---|
| CAMAU Y CYTUNWYD ARNYNT | CYNNYDD |
| Bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn diweddaru'r ddogfen lywodraethu bresennol, sef Siarter y Bwrdd, sy'n adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol o ran gweithredu'r Bwrdd ac yn amlinellu manylion rolau, cyfrifoldebau a threfniadau gweinyddol, i'r Bwrdd gytuno arnynt. | Diweddarwyd a chyhoeddwyd y siarter ym mis Gorffennaf 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Dylai’r Bwrdd gydweithio â swyddogion y Comisiwn er mwyn cytuno ar drefniant i neilltuo amser ar gyfer y broses o ddatblygu perthnasoedd rhwng y Bwrdd a swyddogion. Dylid neilltuo amser a dyddiadau ar gyfer cyfleoedd datblygu a gweithgarwch adeiladu tîm, a hynny er mwyn cyfrannu at y broses o ddatblygu effeithiolrwydd y Bwrdd ymhellach. | Mae pob adolygiad thematig o’r rhaglen waith strategol ar gyfer y Chweched Senedd yn cael ei arwain gan aelod o’r Bwrdd.<br><br>Dylai aelodau o’r Bwrdd sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd helpu i ddatblygu perthynas waith agosach rhwng aelodau’r Bwrdd a swyddogion.<br><br>Fel rhan o'r broses gynefino ar gyfer staff newydd i'r tîm clercio bydd cyfarfodydd unigol gydag aelodau'r Bwrdd yn cael eu trefnu. | Ceir ymgysylltu anffurfiol rheolaidd rhwng yr ysgrifenyddiaeth, staff eraill Comisiwn y Senedd sy’n darparu gwybodaeth a chyngor i’r Bwrdd (‘y tîm integredig’), y Cadeirydd ac aelodau’r Bwrdd drwy waith adolygu thematig, cyfarfodydd ac ymweliadau â Thŷ Hywel. Mae hyn wedi gwella’r ddealltwriaeth o rolau ac effeithiolrwydd gwaith y Bwrdd.<br><br>Mae staff newydd wedi'u cyflwyno i holl aelodau'r Bwrdd yn unigol.<br><br>Yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb, mae aelodau'r Bwrdd wedi achub ar y cyfle i gyfarfod â'r 'tîm integredig'. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Y Comisiwn sy'n gyfrifol am recriwtio i'r Bwrdd. Os bydd cyfle yn codi, dylai’r Bwrdd presennol gydweithio â’r Comisiwn i adolygu’r fanyleb ar gyfer gwasanaethu fel aelod o’r Bwrdd yn y dyfodol, a hynny yng nghyd-destun diwygio’r Senedd. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn cyn y rownd nesaf o recriwtio ar gyfer y Bwrdd. | Fel y nodir yn Adran 6 ac Atodlen 2 Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, cyfrifoldeb Comisiwn y Senedd yw gwneud trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr i fod yn aelodau o’r Bwrdd a phenodi ei aelodau.<br><br>Mae'r Bwrdd yn bwriadu adolygu ei fatrics sgiliau cyn y broses recriwtio nesaf ac i drafod hyn gyda'r Comisiwn. | Mater i’r Comisiwn yw hwn. Yn amodol ar drafodaethau ac amserlenni'r Cadeirydd/Prif Weithredwr, mae'r Bwrdd yn fodlon darparu asesiad o'r gofynion sgiliau i lywio proses recriwtio'r Comisiwn ar gyfer y Bwrdd nesaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Dylai’r Bwrdd gydweithio â’r ysgrifenyddiaeth i ddatblygu mecanweithiau eraill ar gyfer casglu adborth yn rheolaidd gan bawb sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd. | Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn bydd y Cadeirydd yn cynnal gwerthusiad blynyddol o waith y Bwrdd gyda chyd-aelodau'r Bwrdd yn unigol, fel modd o gasglu adborth ynglŷn â’r ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithredu.<br><br>Bydd y Cadeirydd hefyd yn gweithio gyda'r Ysgrifenyddiaeth i nodi mecanwaith neu fecanweithiau ar gyfer casglu adborth i’r Bwrdd. | Mae gwerthusiadau blynyddol wedi'u cychwyn gyda phob aelod o'r Bwrdd. Cwblhawyd y gwerthusiad cyntaf ym mis Awst 2023.<br><br>Gofynnir i aelodau'r Bwrdd, yr ysgrifenyddiaeth a'r tîm integredig am adborth ar ddiwedd pob un o gyfarfodydd y Bwrdd, i adolygu a llywio’r gwaith i baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Dylai'r Bwrdd wneud gwaith dadansoddi pellach ar y bylchau sy'n bodoli er mwyn pennu a oes meysydd eraill lle mae diffyg arbenigedd neu gapasiti ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus â gwybodaeth gyflawn. | Mae'r gwaith o recriwtio ymchwilydd cymwys amser llawn ar y gweill ar hyn o bryd.<br><br>Bydd y Bwrdd yn comisiynu cymorth arbenigol pellach ar gyfer ei adolygiadau thematig arfaethedig yn ôl yr angen.<br><br>Bydd y Bwrdd yn adolygu ei anghenion o ran arbenigedd a chapasiti fel rhan o'i adolygiad diwedd tymor o effeithiolrwydd i helpu i nodi unrhyw newidiadau yn y cymorth staffio sydd ei angen ar y Bwrdd yn y Seithfed Senedd. | Ymunodd uwch-ymchwilydd â'r ysgrifenyddiaeth ym mis Medi 2023.<br><br>Contractiwyd Beamans Consulting i gynnal gwaith ymgynghori ar gyfer adolygu cyflogau a graddfeydd staff. Cyflwynwyd eu hadroddiad i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2023.<br><br>Cytunwyd ar fanyleb tendro i gontractio arbenigwyr ar gyfer yr ymchwil i lywio'r adolygiad o gyflogau Aelodau yn 2024-25.<br><br>Bydd y Bwrdd yn adolygu ei anghenion o ran arbenigedd a chapasiti ar gyfer aelodau a'r ysgrifenyddiaeth cyn y Seithfed Senedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | a) Dylai'r Bwrdd gynnal trafodaethau â'r Comisiwn er mwyn adolygu eu perthynas yng nghyd-destun y gwasanaethau y mae'r Comisiwn yn eu darparu i'r Bwrdd, a dylai ystyried sut y gall y trefniant hwn weithio wrth symud ymlaen.<br><br>b) Dylai'r Bwrdd hefyd gydweithio â staff y Comisiwn er mwyn sicrhau eglurder i Aelodau a'u staff ynghylch rolau'r Bwrdd, y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, a'r Prif Weithredwr. | Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd â Phrif Weithredwr y Comisiwn. Mae'r cymorth staffio a ddarperir i'r Bwrdd gan y Comisiwn yn cael ei adolygu fel rhan o'r trafodaethau hyn.<br><br>Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg eglurder ynghylch rolau penodol y Bwrdd a'r Comisiwn o ran rheoleiddio gwariant ac adnoddau Aelodau a threfniadau cymorth i'r Aelodau, bydd y Bwrdd yn ceisio gwneud hyn yn glir yn yr holl gyfathrebu ag Aelodau, er enghraifft drwy lythyrau yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.<br><br>a) Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cyfarfod â'r Llywydd, fel Cadeirydd y Comisiwn, i ofyn i sefydlu mecanwaith ar gyfer deialog rheolaidd rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn ar Ddiwygio'r Senedd. Bydd mecanwaith o'r fath yn caniatáu ar gyfer trafodaethau ynglŷn â rolau'r ddau gorff o ran sut maent yn cefnogi'r Aelodau yn y dyfodol.<br><br>b) Yn ddiweddar, dechreuodd y Bwrdd adolygiad symleiddio gyda'r nod o sicrhau bod y fframwaith sydd ar waith i reoleiddio | a) Rhannwyd Siarter y Bwrdd â Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd fel rhan o'r adolygiad ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r ffyrdd o weithio gyda'r Comisiwn, yn benodol sut y darperir tystiolaeth a gwybodaeth, wedi'u nodi yn Siarter y Bwrdd.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr cyn pob cyfarfod Bwrdd.<br><br>Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â'r Llywydd ddwywaith yn ystod 2023-24 i ystyried rhaglen fwy rheolaidd o drafodaethau a chydweithio rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn (a gaiff ei drafod gan y Comisiwn ar 29 Ebrill 2024).<br><br>Mae Comisiwn y Senedd wedi dyrannu swyddog 'arweiniol' ar gyfer pob un o adolygiadau thematig y Bwrdd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwariant yr Aelodau drwy'r Penderfyniad yn glir ac mor syml â phosibl i'r Aelodau a'u staff ei ddilyn. Dylai gweithio ar y cyd â'r Comisiwn yng nghyd-destun yr adolygiad hwn helpu i sicrhau mwy o eglurder ynghylch rolau'r Bwrdd a'r Comisiwn | Roedd yr Adolygiad Blynyddol o Benderfyniad 2024-25 yn cynnwys cynigion yn deillio o'r adolygiad thematig symleiddio. Roedd hyn yn cynnwys egluro rolau priodol y Bwrdd a'r Comisiwn a chynyddu proffil y gwaith symleiddio (ac amlygrwydd y Bwrdd) gyda swyddogion y Comisiwn.<br><br>Mae rolau y penodol y Comisiwn a'r Bwrdd wedi'u nodi hefyd yn nogfennau ymgynghori'r adolygiad blynyddol a'r 'llythyr penderfyniad' a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Penderfyniad diwygiedig ym mis Mawrth 2024.<br><br>Mae aelodau'r Bwrdd yn cymryd amser i egluro rolau'r Comisiwn a'r Bwrdd yn eu sesiynau galw heibio gydag Aelodau cyn pob un o gyfarfodydd y Bwrdd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 | Dylai'r Bwrdd geisio mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd mewn perthynas â'r ffordd y mae'n cyfathrebu â'i randdeiliaid gwleidyddol.  Un posibilrwydd fyddai defnyddio arbenigedd cyfathrebu i helpu a chefnogi'r Bwrdd.  Dylai'r Bwrdd hefyd gynnwys Aelodau a'u staff wrth wneud penderfyniadau terfynol ar unrhyw ffyrdd neu egwyddorion newydd sy'n cael eu mabwysiadu mewn perthynas â chyfathrebu yn y dyfodol, a chytuno arnynt, a hynny er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth. | Bydd y Bwrdd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â'r Aelodau ar y cyd â'r Comisiwn mewn perthynas â meysydd o ddiddordeb a rennir, lle bo hynny'n briodol.<br><br>Bydd y Bwrdd yn gweithio gyda'r Comisiwn ar yr adolygiad symleiddio i helpu i sicrhau mwy o eglurder ynghylch rolau penodol y Bwrdd a'r Comisiwn.<br><br>Bydd y Bwrdd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'i raglen waith, a phan fydd ymgysylltu â rhanddeiliaid gwleidyddol wedi'i gynllunio, er enghraifft drwy lythyrau diweddaru a gyhoeddir yn dilyn pob cyfarfod Bwrdd, cyfarfodydd rheolaidd â Phenaethiaid Staff grwpiau gwleidyddol yn y Senedd a thrwy'r Grwpiau Cynrychiolwyr a'r Grŵp Cyswllt Gwleidyddol. | Mae gwaith ymgysylltu ag Aelodau a'u staff wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2023-24.<br><br>Mae'r Bwrdd wedi cael cyfanswm o 34 o gyfarfodydd gydag Aelodau.<br><br>Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod wyneb yn wyneb yn Nhŷ Hywel 5 gwaith yn ystod 2023-24 ac wedi siarad â 21 o Aelodau yn y sesiynau galw heibio o amgylch y cyfarfodydd hyn. Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod â Grŵp Cynrychiolwyr yr Aelodau bum gwaith a'r Penaethiaid Staff chwe gwaith ac mae bellach yn darparu dogfen gryno ddwyieithog o faterion i'w trafod ymlaen llaw.<br><br>Mae aelodau'r Bwrdd (ac ymgynghorwyr ar eu rhan) wedi cyfarfod â nifer o Aelodau, staff cymorth a staff grwpiau fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiadau thematig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ymwelodd aelodau'r Bwrdd â 9 o swyddfeydd 11 o Aelodau yn ystod hydref 2023-24 i ddeall y materion a wynebir gan staff etholaethau a thrafod y broses o weithredu'r Penderfyniad gydag Aelodau.<br><br>Caiff gwaith i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Bwrdd ei hyrwyddo drwy fewnrwyd yr Aelodau, e-byst uniongyrchol ynghylch adolygiadau thematig a diweddariadau e-bost yn dilyn pob cyfarfod Bwrdd.<br><br>Canfuwyd mai cyfarfodydd wyneb yn wyneb cyn pob cyfarfod Bwrdd a llythyrau diweddariad yn nodi'r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu ag Aelodau a'u staff. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Mae tryloywder yn egwyddor bwysig sy'n sail i waith y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd adolygu eto yr amgylchiadau lle byddai'n briodol rhannu'r wybodaeth y mae'n ei chael ar ffurf ymchwil er mwyn sicrhau bod gan y rhai yr effeithir arnynt gan ei benderfyniadau ddealltwriaeth glir o'r dystiolaeth a arweiniodd at wneud y penderfyniadau hynny. | Bydd y Bwrdd yn ystyried fesul achos pa lefel o wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol ei chyhoeddi i egluro'r dystiolaeth allweddol sydd wedi llywio ei benderfyniadau.<br><br>Yn y dyfodol, bydd amseriad yr Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad yn caniatáu mwy o amser ar gyfer cynllunio'r gyllideb cyn dechrau pob blwyddyn ariannol gan gynnwys briff llafar ymlaen llaw i Benaethiaid Staff i ymateb i unrhyw bryderon cyn cytuno ar y Penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi. | Mae'r Bwrdd wedi cynyddu trafodaethau ac arferion rhannu gwybodaeth gyda Grwpiau Cynrychioliadol i rannu gwybodaeth yn ogystal â gwella'r mewnbwn i benderfyniadau'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd bellach yn darparu dogfen gryno ddwyieithog o faterion i'w trafod gyda'r Grwpiau Cynrychiolwyr cyn cyfarfodydd.<br><br>Cafodd canlyniadau proses yr Adolygiad Blynyddol eu cyfleu i'r Penaethiaid Staff cyn gynted ag y gwnaed y penderfyniadau i ganiatáu i Aelodau a grwpiau gynllunio eu cyllidebau mewn da bryd.<br><br>Mae'r wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad o gyflogau a graddfeydd staff yr Aelodau wedi'i chyhoeddi. Mae hyn yn caniatáu dealltwriaeth lawnach o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd ar gyfer |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | newidiadau i’r Penderfyniad cyn y Seithfed Senedd.<br><br>Cyfeirir at y dystiolaeth sy'n llywio'r cynigion yn yr Adolygiad Blynyddol yn y ddogfen ymgynghori a chyflwynir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn y 'llythyr penderfyniad' a oedd yn cyd-fynd â chyhoeddi'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau 2024-25. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Dylai'r Bwrdd sicrhau bod y gwaith y mae'n ei wneud ar symleiddio'r broses yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn perthynas â'r Penderfyniad.  Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylai hefyd gynnwys staff y Comisiwn (gan gynnwys y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau), yr Aelodau eu hunain a staff cymorth yn ei drafodaethau, a hynny er mwyn llywio'r ffordd ymlaen o ran y Penderfyniad. | Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i weithio gyda'r Comisiwn er mwyn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau a wneir i'r Penderfyniad yn creu cymhlethdodau diangen i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau o ran ei weinyddiaeth a'i fod yn sicrhau cymaint o eglurder â phosibl ynghylch y lwfansau sydd ar gael i'r Aelodau a'r hyn sydd ei angen arnynt i hawlio eu costau busnes. | Yn ogystal â cheisio symleiddio'r iaith yn y Penderfyniad a'i gwneud yn fwy eglur, mae'r adolygiad symleiddio hefyd yn ceisio deall yr holl gyngor a chanllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Penderfyniad yn ymarferol.<br><br>Mae gwaith ymgysylltu â'r Comisiwn wedi arwain at nifer o gynigion yn yr Adolygiad Blynyddol i wneud y broses o hawlio costau yn symlach ac yn gynt. Cafodd y cynigion hyn eu croesawu ac maent wedi arwain at sgyrsiau defnyddiol gyda'r Comisiwn ar wella'r ffordd y mae Aelodau'n hawlio costau a fydd yn llywio'r gwaith o baratoi'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.<br><br>Rhoddwyd cyfle i aelodau, staff cymorth a rhanddeiliaid gwleidyddol eraill wneud sylwadau ar gynigion yn yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gweithredwyd ar eu hadborth, a chafodd ei grynhoi yn y 'llythyr penderfyniad' a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2024-25.<br><br>Mae'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi dweud bod y llythyr yn ganllaw defnyddiol i'r newidiadau i'r ddogfen ac yn grynodeb o'r broses adolygu flynyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 | Y Senedd fyddai'n gyfrifol am unrhyw newid yng nghylch gorchwyl y Bwrdd neu unrhyw broses i'w ddiwygio. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd gynnal trafodaethau gyda'r Comisiwn er mwyn codi'r themâu sy'n ymwneud â'i berthynas barhaus â'r Comisiwn ac unrhyw effaith bosibl ar ei gylch gorchwyl yn y dyfodol, o ganlyniad i ddiwygio'r Senedd. | Mae cylch gorchwyl y Bwrdd wedi'i nodi ym Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Mater i'r Senedd yw unrhyw newidiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd.<br><br>Mae'r Bwrdd wedi sefydlu mecanwaith ar gyfer trafodaethau rheolaidd rhwng Cadeirydd y Bwrdd a Llywydd Comisiwn y Senedd | Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â'r Llywydd ddwywaith a'r Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd chwe gwaith ers i'r Bwrdd dderbyn yr argymhellion.<br><br>Mae hyn yn rhan o raglen fwy rheolaidd o drafodaethau rhwng y Bwrdd a Chomisiwn y Senedd a gwaith ar y cyd ar fuddiannau a rennir.<br><br>Mae'r Bwrdd yn barod i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth iddi fwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor Biliau Diwygio i adolygu'r adnoddau cyhoeddus a'r cyllid sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol cofrestredig yng Nghymru ac adolygu'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Dylai'r Bwrdd, o dan gyfarwyddyd y Cadeirydd a chan gydweithio â’r ysgrifenyddiaeth, ystyried cyflwyno trefniadau rheoli perfformiad blynyddol gydag aelodau'r Bwrdd, a hynny’n unol ag arfer da. | Bydd y Cadeirydd yn cynnal gwerthusiadau blynyddol gyda phob aelod o'r Bwrdd yn unigol. Bydd hyn yn cael ei lywio gan adborth gan swyddogion sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd.<br><br>Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried unrhyw adborth ar ei waith sy’n dod i law gan Aelodau a Staff Cymorth, er enghraifft sylwadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Grwpiau Cynrychiolwyr neu mewn ymateb i ymgynghoriadau'r Bwrdd, fel modd o sicrhau datblygiad a gwelliant parhaus. | Cynhaliwyd gwerthusiadau blynyddol ym mis Awst 2023 a byddant yn cael eu cynnal bob blwyddyn.<br><br>Ceisir adborth ynghylch gwella ymgysylltu ac arferion rhannu gwybodaeth drwy drafodaethau gyda Grwpiau Cynrychiolwyr ac ar ddiwedd pob cyfarfod Bwrdd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12 | Dylai'r Bwrdd gydweithio â'r ysgrifenyddiaeth i ddatblygu dull o olrhain ei gynnydd, a dylai rhoi cynllun cyfathrebu ar waith er mwyn sicrhau y gall ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud i'w randdeiliaid. | Bydd y Bwrdd yn mesur ei gynnydd o ran cyflawni ei amcanion strategol ac yn rhannu'r cynnydd â'i randdeiliaid drwy adroddiad blynyddol, fel sy'n ofynnol o dan Adran 11 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.<br><br>Bydd y Bwrdd yn defnyddio'r broses hon i ystyried i ba raddau y mae wedi cyflawni ei amcanion strategol a gweithredu argymhellion yr adolygiad o effeithiolrwydd, ac er mwyn rhannu'r cynnydd ar y Cynllun Blynyddol â'i rhanddeiliaid. | Roedd Adroddiad Blynyddol 2022-23 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023 yn nodi cynnydd yn erbyn amcanion strategol cyhoeddedig y Bwrdd, ac felly hefyd yr adroddiad ar 2023-24.<br><br>Amlygwyd y cynnydd hefyd yn y digwyddiad i lansio'r adroddiad blynyddol ym mis Gorffennaf 2023.<br><br>Mae'r Bwrdd hefyd yn rhoi diweddariadau ar gynnydd adolygiadau thematig drwy lythyrau diweddaru a gwefan y Bwrdd. |